



St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

Polisi Pryderon Ymddygiad

Awdur	Pennaeth Cynorthwyol- Diwylliant y Dysgwr
Fersiwn	1.0
Statws	Byw
Dyddiad Cymeradwyo	Mawrth 2026
Cymeradwywyd gan	Ethos a Diwylliant Catholig
Dyddiad Cychwyn	Mawrth 2026
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf	Ionawr 2028
Cyfrifoldeb am yr Adolygiad	Pennaeth Cynorthwyol- Diwylliant y Dysgwr
Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg	Oes
Ystyriwyd Goblygiadau Iechyd a Lles	Do

Fersiwn	Dyddiad	Disgrifiad	Adolygwyd/Addaswyd gan
1.0	11/02/2026	Yn nodi fframwaith cam wrth gam y Coleg ar gyfer hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a mynd i'r afael â phryderon ynghylch ymddygiad dysgwyr mewn modd cefnogol, sy'n seiliedig ar drawma ac sy'n gymesur.	Pennaeth Cynorthwyol- Diwylliant y Dysgwr

Cynnwys

POLISI PRYDERON YMDDYGIAD	3
1. Ystod a Diben	3
ii. Diben y polisi hwn yw:	3
iii. Dylid darllen y polisi hwn ochr yn ochr â'r Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant, y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, y Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Polisi Addaswydd i Astudio	3
2. Diffiniadau	3
3. Datganiad Polisi	3
4. Y Broses Pryderon Ymddygiad	4
Cam 1 – Pryder (Ymyrraeth arweiniwyd gan Athro)	5
Cam 2 – Adolygiad gan Arweinydd Maes Dysgu	5
Cam 3 – Pryder Sylweddol (Ymyrraeth Fugeiliol)	5
Cam 4 – Pryder Difrifol (Ymyrraeth gan y Deon neu Arweinydd Ffuriant y Dysgwr)	6
Cam 5 – Adolygiad gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth	6
Fframwaith Dwysáu Pryderon Ymddygiad ac Ymyrraeth	7
5. Cefnogi Ymddygiad a Chadw Cofnodion	9
6. Cyfrifoldebau	9
7. Datganiad Cydraddoldeb ac Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg	9
8. Cyfathrebu a Chofnodi	9

POLISI PRYDERON YMDDYGIAD

1. Ystod a Diben

i. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob dysgwr sydd wedi cofrestru yn y Coleg, yr holl staff addysgu a chymorth, uwch arweinwyr, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr. Mae'n berthnasol i ymddygiad ac ymgysylltu o fewn ystafelloedd dosbarth, manau cymunedol, amgylcheddau digidol, llwyfannau ar-lein, gweithgareddau cyfoethogi ac ymweliadau addysgol.

ii. Diben y polisi hwn yw:

- Hyrwyddo amgylchedd dysgu diogel, parchus a chynhwysol.
- Darparu fframwaith clir, teg a chyson ar gyfer mynd i'r afael â phryderon ymddygiad.
- Sicrhau bod ymatebion i ymddygiad yn gefnogol, yn gymesur ac yn addysgiadol.
- Ymgorffori egwyddorion sy'n ystyriol o drawma ac sy'n wrth-hiliol mewn prosesau ymddygiad.
- Diogelu lles, urddas a diogelwch pob aelod o gymuned y Coleg.

iii. Dylid darllen y polisi hwn ochr yn ochr â'r Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant, y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, y Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Polisi Addasrwydd i Astudio.

2. Diffiniadau

i. Pryderon am Ymddygiad

Pryder Ymddygiad yw unrhyw ymddygiad parhaus, ailadroddus neu ddifrifol sy'n effeithio'n negyddol ar gynnydd dysgwr, dysgu neu lesiant eraill, neu ddiogelwch a rhedeg y Coleg yn drefnus.

ii. Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma

Mae ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn cydnabod y gall profiadau niweidiol, heriau iechyd meddwl, niwroamrywiaeth neu anghenion heb eu diwallu ddylanwadu ar ymddygiad. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i staff ymateb mewn ffyrdd sy'n blaenoriaethu diogelwch, urddas, ymddiriedaeth berthnasol a chefnogaeth briodol wrth gynnal disgwyliadau uchel.

3. Datganiad Polisi

i. Ethos Catholig ac Urddas y Person Cyfan

Fel Coleg Catholig, mae ein dull o ymdrin ag ymddygiad ac ymgysylltu wedi'i wreiddio yng ngwerthoedd yr Efengyl ac Addysgu Cymdeithasol Catholig. Rydym yn cadarnhau urddas cynhenid pob person ac yn cydnabod bod pob dysgwr wedi'i greu ar lun a delw Duw. Mae'r

Coleg wedi ymrwymo i ddatblygu'r person cyfan; yn ddeallusol, yn ysbrydol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol. Felly, mae disgwyliadau ymddygiad yn ymwneud â ffurfio, twf a chyfrifoldeb, nid dim ond cydymffurfio.

Lle mae ymddygiad yn is na'r disgwyliadau, bydd ein hymateb yn blaenoriaethu adferiad, cymod ac atebolrwydd personol. Bydd disgwyliadau uchel bob amser yn cyd-fynd â chefnogaeth uchel, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i feithrin pob dysgwr o fewn cymuned ddiogel a pharchus.

ii. Agwedd Ystyriol o Drawma

Mae'r Coleg yn cydnabod y gall trawma, profiadau niweidiol, anghenion iechyd meddwl, niwroamrywiaeth neu ffactorau cyd-destunol eraill ddylanwadu ar ymddygiad. Bydd staff yn ceisio deall cyd-destun cyn dwysáu, yn defnyddio dulliau dad-ddwysáu ac adferol lle bo'n briodol, yn darparu cefnogaeth strwythuredig a chymesur, ac yn gwneud addasiadau rhesymol lle bo angen. Ni fydd sancsiynau yn unig yn cael eu defnyddio fel ymateb sylfaenol. Bydd ymyriadau'n cyfuno disgwyliadau clir â chefnogaeth ystyrion.

iii. Gwrth-hiliaeth a Chydraddoldeb.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i wrth-hiliaeth a chydraddoldeb. Bydd ymddygiad gwahaniaethol, gan gynnwys iaith neu ymddygiad hiliol, rhywiaethol, homoffobig, trawsffobig neu abledol, yn cael ei herio a'i drin ar unwaith. Bydd data ymddygiad yn cael ei fonitro i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghymesuredd mewn cynnydd neu ganlyniadau. Bydd gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth, yn deg ac yn rhydd o ragfarn.

iv. Barn Broffesiynol a Diogelu

Mae'r broses Pryder Ymddygiad yn flaengar ac yn gefnogol. Fodd bynnag, mae uwch aelodau staff yn cadw'r awdurdod i osod dysgwr ar unrhyw gam o'r fframwaith lle mae difrifoldeb, risg neu natur yr ymddygiad yn gwarantu dwysáu ar unwaith.

Bydd pob penderfyniad yn gymesur, wedi'i ddogfennu a'i wneud er budd diogelu, lles a lles cyffredin cymuned y Coleg.

4. Y Broses Pryderon Ymddygiad

Mae'r Coleg yn gweithredu fframwaith Pryderon Ymddygiad fesul cam, wedi'i gofnodi ar System Gwybodaeth Reoli (MIS) y Coleg. Mae'r broses yn dryloyw, yn flaengar ac yn gefnogol. Mae symud rhwng camau yn cael ei bennu gan barhad, difrifoldeb, effaith a lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r ymddygiad.

Ym mhob cam, mae camau a gymerwyd, cefnogaeth a gynigir a chanlyniadau adolygiad yn cael eu cofnodi ar System Gwybodaeth Reoli'r Coleg.

Mae uwch arweinwyr yn cadw'r disgrisiwn i osod dysgwr ar unrhyw gam o'r broses lle ystyrir bod hyn yn angenrheidiol, yn seiliedig ar ddifrifoldeb y pryder neu lefel y risg a gyflwynir.

Cam 1 – Pryder (Ymyrraeth arweiniwyd gan Athro)

- Mae Cam 1 yn mynd i'r afael â phryderon lefel isel parhaus.
- Gall ymddygiadau nodweddiadol gynnwys cyrraedd yn hwyr dro ar ôl tro, methu â chwblhau gwaith, aflonyddwch lefel isel, iaith amhriodol, camddefnyddio ffonau symudol, neu fethu â dilyn cyfarwyddiadau rhesymol.
- Yn y cam hwn, mae'r athro'n egluro disgwyliadau, cynigir cefnogaeth briodol, a chytunir ar gyfnod adolygu.
- Y ffocws yw ymyrraeth gynnar ac atal gwaethygu.
- Mae pob pryder a chamau gweithredu yn cael eu cofnodi ar System Rheoli Gwybodaeth y Coleg.

Cam 2 – Adolygiad gan Arweinydd Maes Dysgu

- Mae Cam 2 yn berthnasol lle mae pryderon yn parhau a lle nad oes gwelliant digonol wedi ymyrraeth Cam 1.
- Gall dangosyddion nodweddiadol gynnwys aflonyddwch parhaus, methu terfynau amser dro ar ôl tro, diffyg cydymffurfio parhaus, neu ymddygiad sy'n effeithio ar ddysgu ar draws sawl gwers.
- Bydd yr Arweinydd Maes Dysgu yn adolygu camau gweithredu blaenorol ac yn gwerthuso eu heffaith.
- Bydd unrhyw bryderon cysylltiedig a godwyd gan feysydd pwnc eraill hefyd yn cael eu hystyried.
- Bydd yr Arweinydd Maes Dysgu yn penderfynu a oes angen cymorth ychwanegol wedi'i dargedu neu a ddylai'r dysgwr symud ymlaen i Gam 3.

Cam 3 – Pryder Sylweddol (Ymyrraeth Fugeiliol)

- Mae Cam 3 yn berthnasol lle mae ymddygiad yn effeithio'n barhaus ar ddysgu, lles neu ddiogelwch, ac mae angen ymyrraeth fugeiliol ychwanegol.
- Gall ymddygiadau nodweddiadol gynnwys patrymau o driwantaeth, herfeiddiad parhaus, iaith niweidiol neu wahaniaethol, ysmegu neu anweddu ar y safle, camymddwyn academiaidd, neu waethygu pryderon cynharach.
- Cytunir ar gynllun ymyrraeth Cam 3 ffurfiol a/neu Gynllun Iechyd a Chymorth Ychwanegol (HASP) rhwng y dysgwr a'r tiwtor bugeiliol.
- Archwilir rhwystrau i ddysgu, gosodir disgwyliadau clir, a sefydlir dyddiad adolygu.
- Bydd rhieni neu ofalwyr yn cael eu cynnwys lle bo'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr dan 18 oed.
- Cofnodir yr holl gamau gweithredu a chanlyniadau adolygiad ar System Reoli Gwybodaeth y Coleg.

Cam 4 – Pryder Difrifol (Ymyrraeth gan y Deon neu Arweinydd Ffuriant y Dysgwr)

- Mae Cam 4 yn berthnasol lle mae ymddygiad yn ddifrifol, yn cyflwyno risg sylweddol, neu heb wella er gwaethaf ymyriadau blaenorol.
- Gall Cam 4 gael ei gychwyn gan y tiwtor bugeiliol neu'n uniongyrchol gan uwch aelod o staff lle mae difrifoldeb y pryder yn cyfiawnhau dwysáu ar unwaith.
- Gall ymddygiadau nodweddiadol gynnwys bwlio, ymddygiad ymosodol neu fygythiol, aflonyddu gwahaniaethol, camddefnyddio sylweddau anghyfreithlon, ymrafael corfforol, neu ymddygiad sy'n peri risg i'r dysgwr neu eraill.
- Bydd cyfarfod Cam 4 ffurfiol yn cael ei gynnull gan Ddeon neu Arweinydd Ffuriant Dysgwyr. Bydd gofyn i'r dysgwr fynychu gydag oedolyn dibynadwy. Lle mae'r dysgwr o dan 18 oed, gwahoddir y perthynas agosaf i fynychu lle bo'n briodol.
- Pwrpas y cyfarfod yw adolygu ymyriadau blaenorol, egluro pryderon, asesu risg, a chytuno ar gamau nesaf clir.
- Bydd cynllun ymyrraeth Cam 4 ffurfiol yn cael ei gwblhau. Gall hyn gynnwys asesiad risg neu gynllun diogelwch lle bo angen.
- Lle mae risg i ddiogelwch neu les y dysgwr neu eraill, gall y Coleg weithredu mesurau amddiffynnol ar unwaith. Gall y rhain gynnwys gwaharddiad dros dro, mynediad cyfyngedig i rannau o'r safle, trefniadau astudio dan oruchwyliaeth, addasiadau i'r amserlen, neu gamau rhesymol eraill sy'n angenrheidiol i gynnal diogelwch.
- Bydd unrhyw waharddiad yn gymesur, wedi'i gyfyngu gan amser, a'i weithredu yn unol â chanllawiau'r Coleg.

Cam 5 – Adolygiad gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth

- Mae Cam 5 yn berthnasol pan fo pryderon yn parhau heb eu datrys neu pan fo lefelau risg yn cynyddu.
- Bydd y Tîm Arweinyddiaeth Uwch yn adolygu'r holl ymyriadau blaenorol, yn asesu cymesuredd ac yn ystyried y risg i'r dysgwr ac eraill.
- Gall canlyniadau gynnwys cynllun cymorth dwys terfynol, cychwyn gweithdrefnau Ffitrwydd i Astudio, amodau presenoldeb ychwanegol, gwaharddiad parhaus lle bo angen, neu waharddiad lle ystyrir ei fod yn briodol neu'n ofynnol i amddiffyn diogelwch a lles.

Fframwaith Dwysáu Pryderon Ymddygiad ac Ymyrraeth

Cam	Adolygwr	Sbardun / Trothwy	Ymddygiadau Nodweddiadol / Arwyddion
Cam 1 – Pryder	Athro/athrawes	Pryderon lefel-isel parhaus	<ul style="list-style-type: none"> • Hwyrni parhaus • Iaith amhriodol barhaus • Camddefnyddio ffôn parhaus • Methu â chwblhau gwaith cartref yn barhaus • Herfeiddio'n barhaus • Methu â gwisgo llinyn gwddf yn barhaus
Cam 2 -Adolygiad Arweinydd Maes Dysgu (LAL)	Arweinydd Maes Dysgu	Pryderon yn parhau yn dilyn ymyraethau Cam 1	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i fod yn hwyr • Parhau i ddefnyddio iaith amhriodol • Parhau i gamddefnyddio'r ffôn • Parhau i fethu â chwblhau gwaith cartref • Parhau i herio • Parhau i fethu â gwisgo llinyn • Ymddygiad yn effeithio ar nifer o wersi
Cam 3 – Sylweddol (Ymyrraeth Fugeiliol)	Tiwtor Bugeiliol	Pryderon parhaus neu gyson yn cael effaith ar ddysgu, llesiant neu ddiogelwch	<p>Gall gynnwys pob ymddygiad Cam 1 a Cham 2 lle mae'n gyson, yn barhaus neu'n gwaethygu, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Patrymau parhaus o fod yn hwyr neu'n triwantiaeth • Tarfu neu herfeiddio parhaus • Methu â chyflawni disgwyliadau academiaidd dro ar ôl tro • Ysmygu neu feipio ar y safle

Cam	Adolygwr	Sbardun / Trothwy	Ymddygiadau Nodweddiadol / Arwyddion
Cam 4 – Ymyrraeth Ddifrifol	Deon / Arweinydd Ffurfiant y Dysgwr	Ymddygiad difrifol, gwaethgu ar bryderon Cam 3, neu risg arwyddocaol	<p>Gall gynnwys ymddygiadau parhaus neu waeth o Gamau 1–3, a/neu ddigwyddiadau difrifol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Herfeiddiad neu aflonyddwch parhaus neu waeth • Bwlio • Trais neu ymddygiad bygythiol • Camddefnyddio sylweddau anghyfreithlon • Camymddwyn academiaidd (NEA neu arholiadau) • Camddefnyddio cerdyn adnabod • Caniatáu tresmaswyr ar y safle • Ymddygiad sy'n peri risg i'w hun neu i eraill
Cam 5 – Adolygiad UDA/SLT	Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT)	Pryderon difrifol, heb eu datrys, neu lefel uchel	<ul style="list-style-type: none"> • Pryderon diogelu sylweddol • Parhau i ddwysáu er gwaethaf ymyrraeth • Gall gynnwys asiantaethau allanol • Ystyrir trefniadau amgen

5. Cefnogi Ymddygiad a Chadw Cofnodion

- i. Bydd pob ymyrraeth ymddygiad yn gymesur, wedi'i hesbonio'n glir, wedi'i chyfyngu gan amser ac wedi'i hadolygu. Bydd llais y dysgwr yn cael ei gynnwys lle bo'n briodol. Bydd diogelu, anghenion dysgu ychwanegol ac ystyriaethau lles yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.
- ii. Caiff cofnodion ymddygiad eu cadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol yn unol â gofynion diogelu data ac amddiffyn a diogelu.

6. Cyfrifoldebau

i. Yr Holl Staff

Mae'r holl staff yn gyfrifol am fodelu ymddygiad parchus, cymhwyso disgwyliadau'n gyson, cofnodi pryderon yn gywir, herio gwahaniaethu a defnyddio dulliau sy'n ystyriol o drawma.

ii. Uwch Arweinyddion a Llywodraethwyr

Mae'r Uwch Arweinwyr a Llywodraethwyr yn gyfrifol am sicrhau gweithrediad cyson, monitro data ymddygiad, sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac adolygu effeithiolrwydd.

iii. Dysgwyr

Mae dysgwyr yn gyfrifol am ymgysylltu'n bositif mewn dysgu, parchu eraill a chymryd rhan mewn cynlluniau cefnogaeth a gytunwyd.

7. Datganiad Cydraddoldeb ac Aseiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg

- i. Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y Coleg yn monitro'r gweithrediad i sicrhau nad oes unrhyw ddysgwr dan anfantais annheg.
- ii. Mae'r Coleg yn parchu hawliau'r iaith Gymraeg. Gall dysgwyr ofyn am gyfarfodydd neu ddogfennaeth yn y Gymraeg lle bo'n rhesymol ymarferol.

8. Cyfathrebu a Chofnodi

- i. Cyhoeddir y polisi hwn ar wefan y Coleg a bydd ar gael drwy systemau mewnol a deunyddiau sefydlu.

- ii. Bydd cofnodion Pryderon Ymddygiad yn cael eu storio'n ddiogel ar system MIS y Coleg a dim ond staff awdurdodedig fydd yn gallu cael mynediad iddynt yn unol â deddfwriaeth diogelu data.